tafod elái

HYDREF 2010

Rhif 251

Pris 80c

DAWNSWYR NANTGARW YN LORIENT

Dawnsio ar lwyfan o flaen 20,000 o bobl, gorymdeithio drwy'r dref o flaen torf enfawr a dawnsio i'r Maer mewn derbyniad swyddogol - dyma rai o'r profiadau bythgofiadwy a ddaeth i ran Dawnswyr Nantgarw ar eu taith ddiweddar i Ŵyl Geltaidd Lorient yn Llydaw.

Pan dderbyniwyd y gwahoddiad i ddawsio yn yr ŵyl, doedd gan yr un ohonom syniad beth i'w ddisgwyl. Er ein bod wedi dawnsio mewn sawl gwlad wahanol – o Mallorca i China - go brin bod yr un ohonom yn sylweddoli gwir faint yr ŵyl hon a oedd yn dathlu ei phen blwydd yn 40 eleni. Wrth gychwyn ar y daith o Bontypridd yn gynnar ar fore Gwener gwlyb ddechrau mis Awst, roedd ychydig o amheuaeth ynglŷn â'r daith. Doedd neb yn rhy siŵr ble yn union oedden ni'n aros – fe glywsom hanesion gan rai oedd wedi bod i'r ŵyl yn y gorffennol mai llawr neuadd ysgol oedd y llety – a doedd y syniad hwnnw ddim yn apelio llawer! Roedd rhyw fath o amserlen wedi'i darparu ond, eto, prin oedd y manylion. Ar ben y cyfan, roedd passport Cliff wedi mynd ar goll ac felly doedden ni ddim hyd yn oed yn gwybod a fyddai un o arweinwyr y grŵp yn cael teithio gyda ni!

Ond doedd dim angen poeni yn y pen draw. Wedi cyrraedd Lorient a gweld mai neuadd breswyl lân a chyfforddus oedd ein llety a bod tri phryd bwyd y dydd wedi'u darparu, a hefyd bod Cliff wedi cael dod, dechreuodd pawb ymlacio ac edrych ymlaen at y profiad. Ac am brofiad ...!

Un o'r pethau cyntaf a'n trawodd oedd y bwrlwm a'r sŵn ar y strydoedd. Roedd stondinau crefftau a bwydydd traddodiadol wedi'u codi ym mhob cwr o'r dref ac ni allech gerdded deg cam heb glywed swn bagbibau yn ymarfer ar gyfer cystadleuaeth fawr. Ond y cyfle cyntaf gawsom ni i weld gwir maint yr ŵyl oedd am bedwar o'r gloch brynhawn dydd Sadwrn wrth ymarfer ar gyfer cyngerdd y noson honno.

Parhad ar dudalen 3

Agor Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys

Rhys Cutts a Jodie James, Ysgol Gyfun Garth Olwg

Diwrnod hanesyddol oedd 7 Medi 2010 i ardal Pentre'r Eglwys a'r cyffiniau. Dyma ddiwrnod Agoriad Swyddogol y ffordd osgoi newydd. Bu trigolion a chynghorwyr yn ogystal ag Aelodau'r Cynulliad yn brwydro dros gyfnod o 40 mlynedd ar gwblhau'r ffordd arbennig hwn ac roeddent wrth eu bodd i fod yn bresennol ar gyfer y digwyddiad hanesyddol hwn.

Dechreuodd yr agoriad swyddogol gyda Media4Schools yn dangos ffilm y bu disgyblion Bl 13 cwrs Cyfryngau Garth Olwg, Bryncelynnog ac Ysgol y Pant yn ei baratoi dros gyfnod adeiladu'r ffordd.

Parhad ar dudalen 15

Archebwch eich copi o

Tafod Elái

£8

am flwyddyn

Am wybodaeth am eich dosbarthwr lleol ffoniwch 029 20890040

Agor Canolfan Efail Isaf

Ar 5 Medi agorwyd Canolfan newydd Tabernacl Efail Isaf gan Dr Geraint Stanley Jones. (Tudalen 3 a 4)

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

HYSBYSEBION
David Knight 029 20891353

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Cyhoeddir y rhifyn nesaf
ar 1 Tachwedd 2010
Erthyglau a straeon
i gyrraedd erbyn
19 Hydref 2010

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.net

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.net

Argraffwyr:
Gwasg
Morgannwg
Castell Nedd SA10 7DR
Ffôn: 01792 815152

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

MERCHED Y WAWR
Cangen y Garth

'Virgin Vie'

8yh Nos Fercher
13 Hydref
Yng Nghanolfan Tabernacl
Am ragor o fanylion,
ffoniwch: 029 20892830

CYLCH CADWGAN

DR. LOWRI ROBERTS
yn siarad ar y testun:
'Canu Clod y Campau'

Nos Fercher
Tachwedd 10 am 8.00yh
yn Festri Bethlehem,
Gwaelod y Garth

Trefnwyr:
Merched y Wawr

Eisteddfod y Cymoedd

Nos Wener,
Hydref 15fed 2010
Am 5 o'r gloch

Ysgol Lewis i Ferched,
Ystrad Mynach

Rhestr Testunau

www.mentercaerffili.org/eisteddfod

Cydnabyddir cefnogaeth

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

CLWB Y DWRLYN

Aelwyd Waun Ddyfal

8yh, Nos Iau
21 Hydref2010

Yng Nghlwb Rygbi Pentyrch

Am wybodaeth
Ffoniwch 029 20890040

Rhieni Dros Addysg Gymraeg
Cynhadledd a Chyfarfod Blynyddol 2010

Camu ymlaen: Cynllunio i sicrhau cyfleoedd cyfartal i addysg Gymraeg yng Nghymru gyfan

Siaradwyr gwadd:
Ceinwen Jones, Pennaeth Uned Datblygu'r Iaith Gymraeg, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Caroline Rees, Pennaeth Cynhwysiant & Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cyngor Bro Morgannwg

Dydd Sadwrn, 16 Hydref 2010
Yng Nghanolfan Dysgu Gydol Oes Gartholwg, Pentre'r Eglwys

Amserlen:
Coffi: 10.30 - 11. Anerchiadau: 11 - 1
Cinio am 1. Prynhawn 2 tan 3: cyfarfod blynyddol RhAG
Pris mynediad yn cynnwys lluniaeth: £15 / heb luniaeth: £5
Rhaid cofrestru erbyn dydd Gwener 8 Hydref 2010
Manylion llawn a ffurflen gofrestru ar gael trwy gysylltu â Ceri Owen, Swyddog Datblygu RhAG ar 02920 739 207 / 07912175403 neu ceri@rhag.net neu trwy ymweld â'n gwefan www.rhag.net
Croeso i bawb

Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd.

Peirianneg Meinweol - Arwyn Tomos Jones
(Prifysgol Caerdydd)

Nos Lun, Hydref 18, 2010
Yn Ystafell G77, Prif adeilad y Brifysgol yn Park Place (gyferbyn a Undeb y Myfyrwyr) am 7.30pm

GWRES YR EFAIL

Roedd wythnos gyntaf mis Medi yn gyfnod o ddathlu brwd yng nghapel y Tabernacl, Efail Isaf, gyda chyfres o ddigwyddiadau wedi eu trefnu i nodi agor canolfan newydd a fydd ar gael at ddefnydd y capel a'r gymuned yn gyffredinol. Aeth pedair blynedd heibio ers i'r gwaith ddechrau o ddifrif i godi arian i droi'r hen festri yn ganolfan gymunedol amlbwrpas, ac yn ystod y cyfnod hwnnw llwyddwyd i godi ymron i £450,000 i wireddu'r cynllun. Dyfarnwyd grant o £300,000 tuag at y prosiect gan Raglen Cyfleusterau a Gweithgareddau Cymunedol y Cynulliad, a £122,000 arall gan gronfa Pawb a'i Le, Y Loteri Genedlaethol. Bu'r festri ar gau am ddeng mis tra roedd yr adeiladwyr wrth eu gwaith, ond o'r diwedd cafodd aelodau'r Tabernacl weld gwireddu'r freuddwyd.

Dechreuodd y dathlu ar Fedi'r 5ed pan gynhaliwyd oedfa arbennig llawn asbri dan arweiniad y Parchg D. Eirian Rees, a'r capel yn gyfforddus lawn. Roedd hwn yn gyfle hefyd i'r eglwys anrhydeddu Ann ac Eirian ar eu priodas aur, a chyflwynwyd y copi cyntaf iddyn nhw o'r llyfryn Gwres yr Efail, yn crynhoi hanes y Tabernacl o 1841 hyd heddiw. Cyflawnwyd y seremoni ffurfiol o agor y ganolfan newydd gan un o blant yr eglwys, sef y Dr Geraint Stanley Jones, mab y Parchedig D. Stanley Jones, a fu'n weinidog yma am 28 mlynedd rhwng 1925 a 1953. Yn dilyn hynny cafwyd cinio hwyliog yn Neuadd y Pentref.

Trwy gydol yr wythnos cynhaliwyd arddangosfa aml-gyfryngol yn y ganolfan newydd yn olrhain hanes yr ardal, y pentref a'r capel. Roedd yno baneli proffesiynol eu diwyg yn adrodd yr hanes, casgliad o greiriau o bob math a chyfweliadau fideo yn dwyn atgofion am yr hen ddyddiau. Ar y nosweithiau Mawrth a Iau, cafwyd dangosiadau fideo o weithgareddau'r capel dros chwarter canrif, nes bod yr atgofion yn llifo'n felys, os yn hiraethus ar brydiau. Hawdd y gallai dyn werthfawrogi'r hwyl a'r gwmnïaeth a gafwyd dros y cyfnod, ac roedd y nosweithiau hyn yn help i'n hatgoffa mor freintiedig y buom ni a'n plant yn cael y fath brofiadau cynnes a chyfoethog yn y Tabernacl.

Fel rhan o'r dathliadau, lansiwyd adran newydd i wefan y capel, yn canolbwyntio ar hanes y fro, a gobeithir datblygu'r agwedd hon dros y blynyddoedd nesaf.

Daeth y dathliadau i ben gyda chymanfa fawreddog i'r plant a'r oedolion brynhawn Sul Medi'r 12fed a chafwyd cefnogaeth tri chôr sy'n ymarfer yn y pentref ac yn gysylltiedig â'r capel, sef Gôr Godre'r Garth, Parti'r Efail a Merched y Garth. Yr arweinydd oedd Eilir Owen-Griffiths, ac fel y gellid disgwyl, roedd y lle dan i sang.

Pwysleisiodd swyddogion y Tabernacl trwy gydol y dathlu mai holl bwrpas adnewyddu'r adeilad oedd i hyrwyddo gwaith y capel yn cefnogi elusennau lleol - yn ariannol ac yn ymarferol, trwy fudiadau dyngarol amrywiol a thrwy'r cydweithio agos gyda'r gwasanaethau cymdeithasol. Ymysg y grwpiau a fydd yn elwa o'r datblygiad mae'r clwb ieuenctid sy'n cyfarfod bob nos Sul, a thros y blynyddoedd casglwyd miloedd o bunnau gan y bobl ifanc tuag at wahanol elusennau. Mae'r Tabernacl hefyd yn ganolbwynt i weithgareddau Cymraeg eu hiaith yn ardaloedd Pontypridd a Llantrisant, gyda gwahanol gorau a chymdeithasau yn arfer cyfarfod yn yr hen festri.

Cyfeiriad y wefan yw www.tabernacl.org ac mae hi'n werth ymweliad!

Hwyl Lorient

Parhad o dudalen 1

Mewn stadiwm pêl droed a oedd yn dal 20,000 o gefnogwyr, cynhaliwyd y gyngerdd ar lwyfan arbennig wedi'i godi ynghanol y cae, gyda thri sgrin enfawr y tu cefn i ddangos lluniau agos o'r perfformwyr a golygfeydd o'u gwledydd. Yn ogystal â Dawnswyr Nantgarw, cynrychiolwyd Cymru gan barti Cut Lloi o dan arweiniad Sian James a hefyd gan Gwenan Gibbard ar y delyn.

Doedd y gyngerdd ddim yn dechrau tan hanner awr wedi deg y nos a braint Cymru oedd cael cloi'r gyngerdd fel uchafbwynt. Peth dieithr iawn i ni oedd paratoi i berfformio mor hwyr – gan nad oeddem ar y llwyfan tan wedi un y bore - ond mantais hyn oedd cael bod ar y llwyfan drwy gydol y diweddglo trawiadol gyda phob gwlad yn dychwelyd i'r llwyfan i swn y bagbibau a Pharti Cut Lloi yn canu "Pererin wyf mewn anial dir". Dilynwyd hyn gan arddangosfa fendigedig o dân gwyllt a'r dorf yn amlwg wrth ei fodd ac yn bloeddio cymeradwyaeth.

Dydd Sul oedd diwrnod yr orymdaith fawr. Roedd yn rhaid i ni godi'n gynnar yn y bore a cherdded i'r man priodol i ddechrau'r orymdaith a oedd yn mynd â ni drwy'r dref ac yn gorffen yn y stadiwm. Fe'n syfrdanwyd gan faint y dorf – amcangyfrifwyd bod tua 70,000 o bobl yno'n gwylio, a hefyd gan eu cynhesrwydd – roeddynt wedi gwirioni i weld y dawnswyr yn eu gwisgoedd trawiadol ac roedd y ddraig goch a'r Fari Lwyd yn ffefrynnau amlwg. Wedi cwblhau'r orymdaith a dychwelyd i'r llety i newid o'r brethyn poeth fe'n syfrdanwyd gan ystadegyn arall ynglŷn â maint yr ŵyl – bod yr orymdaith yn para o ddeg y bore tan bedwar y prynhawn!

Treuliwyd gweddill yr wythnos mewn twmpathau, cyngherddau, arddangosfeydd o ddawnsio ar y stryd ac ar lwyfan pafiliwn enfawr. Amhosib fyddai cyfeirio at bob un o'r digwyddiadau, ond yn sicr rhai o'r uchafbwyntiau oedd gweld y plant yn clocsio; gweld bob un o'r plant yn cael sws fawr gan wraig a oedd wedi gwirioni'n lân ar eu dawsio; dawns y pelau yn cael derbyniad gwych gan dorf enfawr – gallwn anghofio am wraig ddigywilydd yn gyrrfu ei moped drwy ganol y dawnswyr wrth inni ddawnsio Hoffedd ap Hywel ar stryd brysur!!

Byddai wythnos yn Llydaw yn dda i ddim heb ychydig o amser rhydd ac felly rhwng y dawnsio cafwyd cyfle i fynd i'r traeth, i'r pwll nofio a hyd yn oed i ddysgu ychydig o hanes – diolch i Lowri Gruffydd am ei hymgais i'n haddysgu ynglŷn â meini hynafol Carnac! Roedd yr haul yn gwenu a'r moules frites a'r gwin coch yn blasu'n dda!

Wrth hwylio tuag adref naw niwrnod yn ddiweddarach a gadael sŵn y bagbibau yn canu yn ein clustiau, cafwyd un syrpreis arall – darlledwyd y gyngerdd fawr ar bob sgrin teledu ar y gwch. Roedd un o sianeli teledu cenedlaethol Ffrainc yn dangos y gyngerdd y noson honno, a phenderfynodd y cwmni fferi ei dangos ar y daith yn ôl i Plymouth. Peth rhyfedd iawn oedd gwylio ein hunain yn dawnsio ar deledu'r fferi!

Er ei bod yn 2.30 y bore arnom yn cyrraedd yn ôl, anodd oedd ffarwelio! Roedd pawb yn gytûn ein bod wedi cael taith arbennig

Catrin Roberts

Llongyfarch Eirian ac Ann Rees ar ddathlu eu Priodas Aur

Ffion Rees, Efail Isaf, yng nghystadleuaeth 'Y Disgybl Disgleiriaf'.

Priodas Richard John a Jenny Copnall, North Marston, Swydd Buckingham ddydd Sadwrn, Gorffennaf 31ain. Ail fab Huw a Carol John, Heol Iscoed, Efail Isaf, yw Richard, ac yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Garth Olwg ac Ysgol Gyfun Llanhari. Mae Richard yn gweithio i'r cwmni beiciau Trek a Jenny yn hyfforddwraig beicio.

Arddangosfa hanes y Capel a'r Pentref yn y Ganolfan newydd.



Llyfryn a gyhoeddwyd i olrhain datblygiad Capel Tabernacl

Doniau Cudd

Rhiw Saeson gan Gina Miles

Nant Celyn gan Ray Morgan

Priodas Llinos ac Ian yn Nhonyrefail

Nant Celyn gan Cliff Hewitt

Arddangosfa yng Ngarth Olwg o waith arlunwyr lleol a ysbrydolwyd gan ddosbarth a drefnwyd gan cwmni Costains

Shân Cothi gyda Alun Reynolds ar y rhaglen 'Bro'

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Cofio Mostyn
Syfrdanwyd ardal gyfan gan farwolaeth annhymig Mostyn Rees, Cynlas Bach. Roeddem wedi gweld ei golli yn yr Oedfaon ar y Sul yn y Tabernacl ers rhai misoedd. Bydd bwlch mawr ar ei ôl. Pob bore Sul yn ddi-ffael byddai'n croesawu'r aelodau yn y cyntedd â gwên gynnes a gair neu ddau bwrpasol. Ef oedd yn rhoi trefn ar y fynwent gan ofalu fod pob dim yn daclus a threfnu yno. Roedd yn bwyllgor-ddyn craff a brwd, ac yn fynych byddai'n trefnu ei wyliau i beidio gwrthdaro â chyfarfodydd Eglwys y Tabernacl. Roedd yn aelod ffyddlon o Gymdeithas Gymraeg Llantrisant a melys yw'r cof am sawl taith i'r Cyfandir yng nghwmni Mostyn a Gwyneth.

Roedd Mostyn yn enedigol o Bontypridd ond roedd yn falch o wreiddiau'r teulu ym Mhenrhyndeudraeth. Ar ôl gadael ysgol, treuliodd gyfnod byr yn y fyddin cyn mynd i Goleg y Drindod, Caerfyrddin i dderbyn hyfforddiant i fod yn athro. Bu'n dysgu am gyfnod yn Ysgol Wood Road yna daeth yn Brifathro Ysgol Maesycoed lle'r oedd yn fawr ei barch a'i ddylanwad. Cyn ymddeol dyrchafwyd ef yn Bennaeth Canolfan yr Athrawon ym Mharc Lewis a rhedodd y ganolfan yn effeithiol a threfnus a gydag urddas a oedd mor nodweddiadol ohono.

Cafodd Mostyn ergyd lem o golli Megan, ei wraig yn nechrau'r wythdegau, ond fe fu'n hynod o ffodus i gael cymar ffyddlon a thriw yn Gwyneth a chawson nhw flynyddoedd lawer o hapusrwydd a dedwyddwch yng nghwmni ei gilydd. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i Gwyneth yn ei cholled, i Menna ei ferch, cannwyll ei lygad, ac i John, ei frawd a'r teulu.

Dymunwn wellhad buan i Gwyneth a hithau heb fod yn rhy dda ei hiechyd ar hyn o bryd.

Bro Pontypridd
Braf oedd gweld rhai o'r pentrefwyr ar y rhaglen deledu "Bro Pontypridd" ganol fis Medi. Ymwelodd Iolo Williams ag Ysgol Heol y Celyn i weld Gavin Ashcroft yn hyfforddi ei ddosbarth clocsio. Ymhlith y dawnswyr roedd amryw o wynebau cyfarwydd i ni yn y pentref, Branwen Roberts a'r ddau frawd Trystan ac Osian Gruffydd. Yn yr un rhaglen ymwelodd Shân Cothi â chartref Alun Reynolds ym Mharc Nant Celyn yn Efail Isaf. Roedd Alun, sy'n gyfansoddwr a chanwr yn brysur yn recordio cân a bu'n sôn wrth Shân am ei freuddwyd o gael canu a chyfansoddi'n broffesiynol.

Genedigaeth
Llongyfarchiadau i John ac Audrey Jones, Nantyfelin ar enedigaeth eu gorwyres yn ystod mis Awst. Dymunwn adferiad iechyd buan i Audrey sydd heb fod yn rhy dda ei hiechyd yn ddiweddar.

Clod i Ffion
Llongyfarchiadau i Ffion, merch Alun a Heulwen Rees, Heol Iscoed, ar gael ei dewis i gynrychioli Ysgol Gyfun Garth Olwg i gystadlu am deitl "Y disgybl disgleiriaf" yn ardal Taf Elái. Cynhaliwyd y cyfarfod gwobrwyo yng Ngwesty Tŷ Holland yng Nghaerdydd Nos Wener, Medi 3ydd.

Yn flynyddol daw cyfle i bob ysgol gyfun yn y cylch enwebu aelod o'r chweched dosbarth ar gyfer y wobr a noddir gan Fodurdy Griffin Mill. I Thomas James o Ysgol Gyfun y Pant aeth yr anrhydedd eleni ond ein llongyfarchiadau ni i Ffion am gynrychioli ei hysgol mor gampus.

Mae Ffion bellach wedi mynd i astudio Ffilm a'r Cyfryngau yng Ngholeg y Brifysgol Bangor. Llongyfarchiadau i Rhodri, brawd Ffion, ar ei ganlyniadau TGAU. Mae'n aelod o'r chweched dosbarth yn Ysgol Gyfun Garth Olwg erbyn hyn ac yn astudio Gwyddoniaeth a Mathemateg.

Draw, draw i Tsieina
Dymunwn yn dda i Ffion, merch Geraint a Caroline Rees, Penywaun sydd wedi mynd i Tsieina am flwyddyn i ddysgu Saesneg i blant ifanc yn nhref Yengzhou. Pob dymuniad da i ti Ffion.

Y Ffordd Osgoi
Ar Fedi'r seithfed fe agorwyd y ffordd osgoi'n swyddogol i drafnidiaeth gan y Prif Weinidog, Carwyn Jones. Mr Jones gafodd y fraint o deithio yn y car cynta' o un pen i'r llall o'r ffordd osgoi a hynny mewn car Gilbern to agored. Mae canmol mawr i'r ffordd ac mae gyrwyr yr ardal yn gallu cael hanner awr ychwanegol yn y gwely bob bore.

Coleg
Dymuniadau gorau i'r myfyrwyr o'r pentref sydd wedi ail-afael yn eu cyrsiau yn y Colegau. Dymunwn yn dda i'r rhai sydd yn dechrau o'r newydd. I Daniel Rees, Duffryn Bach Terrace sy'n astudio Ynni Adnewyddol a Thechnoleg Gynaliadwy ym Mhrifysgol Glyndŵr, Wrecsam, ac i Gethin Thomas, Nantcelyn, sydd yn astudio ar gyfer Doethuriaeth yng Ngholeg Caerwysg.

Y TABERNACL

Agor y Ganolfan
Ddydd Sul, Medi 5ed, fe agorwyd Canolfan newydd y Tabernacl. Daeth cynulleidfa deilwng iawn i'r Oedfa. Carol Williams oedd y llywydd. Perfformiwyd cân gam Huw M o'r enw "Mair a Martha" a gyfansoddwyd yn arbennig ar gyfer yr oedfa. Cafwyd datganiad gwefreiddiol gan grŵp o wragedd ifanc yr eglwys o Salm 23 gan Euros Rhys. Bedyddiwyd Rhys Lloyd, mab bach Richard a Siân Theobald, Llanilltud Faerdref. Cyflwynwyd tusw o flodau i Ann ac Eirian a oedd wedi dathlu ei Priodas Aur yn ystod gwyliau'r Haf.

Ar ôl gweinyddu'r Cymun gwahoddwyd ein gŵr gwadd, y Doctor Geraint Stanley Jones i annerch y gynulleidfa. Magwyd Geraint yn yr eglwys, yn fab i'r Cyn-weinidog D. Stanley Jones.

Roedd ein Prifardd Glenys M Roberts wedi ysgrifennu cerdd yn bwrpasol ar gyfer yr Oedfa a darllenwyd hi gan Carol, y llywydd.

Aeth Dr. Geraint Stanley Jones ymlaen wedyn i agor Y Ganolfan yn swyddogol. Aeth pawb i neuadd y pentref i gyd-fwynhau pryd o fwyd hyfryd a baratowyd gan y gwragedd.

Yr Arddangosfa
Bu nifer fach o aelodau Adran Gymraeg ac Adran Saesneg yr eglwys yn paratoi arddangosfa ddwyieithog o hanes yr eglwys a'r pentref o dan arweiniad brwdfrydig Gwilym Treharne, Emlyn Davies a Penri Williams. Bu canmol mawr ar yr arddangosfa a nifer o'r pentrefwyr yn awyddus i gael llyfryn o'r hanes. Os bu canmoliaeth i'r arddangosfa, roedd canmol arbennig i'r adeilad newydd a phawb wedi synnu gweld yr holl adnoddau modern.

Cymanfa Ganu
Yn goron ar wythnos o ddathlu yn y Tabernacl cynhaliwyd Cymanfa Ganu brynhawn Sul, Medi 12fed. Yr arweinydd oedd Eilir Owen-Griffiths, yr Organydd oedd D. Carey Williams ac roedd y gerddorfa o dan ofal Bethan Roberts. Cafwyd eitemau gan blant yr Ysgol Sul, Parti'r Efail, Côr Merched y Garth a Chôr Godre'r Garth. Cawsom wledd o ganu ac mae'r Gymanfa wedi ei recordio ar gyfer Caniadaeth y Cysegr. Cafwyd diweddglo hyfryd i'r prynhawn gyda phawb yn ymgynnull yn y neuadd i gymdeithasu dros baned a theisen. Diolch i'r criw gweithgar am baratoi'r te.

Parhad ar dudalen 6

Achub y Plant
Save the Children

Cynhelir **Cymryd Cam** (Take a Step), digwyddiad codi arian diweddaraf elusen Achub y Plant yn ystod yr wythnos 2 i 10 Hydref 2010. Rydym yn galw ar drigolion eich bro i gymryd camau cadarnhaol - boed fawr neu fach - i wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau plant.

Bob dydd mae plant ar draws y byd yn gorfod cerdded milltiroedd i gael bwyd, dŵr glân neu loches. Yma yng Nghymru, y DU a thramor mae'n rhaid i blant gymryd camau anodd dim ond i oroesi.

Ar gyfartaledd mae person yn cymryd 3,500 o gamau'r dydd neu tua 25,000 mewn wythnos. Mae **Cymryd Cam** felly yn ffordd wych o gadw'n heini a chodi arian at achos gwerth chweil ar yr un pryd.

Pan fyddwch yn cofrestru byddwn yn anfon mesurydd camau (pedometer) atoch fel y gallwch gofnodi eich camau ym mha bynnag weithgaredd y byddwch yn ddewis ei wneud.

Am wybodaeth ar sut i gofrestru a derbyn eich mesurydd camau am ddim ewch i www.savethechildren.org.uk/takeastep neu ffoniwch 029 20 803252 neu ebostiwch j.evans@savethechildren.org.uk.

Os nad yw'n bosib i chi gymryd rhan rhwng 2 -10 Hydref mae'n bosib trefnu gweithgaredd gydol Hydref a Thachwedd ac yna anfon yr arian at Jessica Evans, Achub y Plant, 3ydd Llawr, Phoenix House, 8 Catedral Road, Caerdydd, CF11 9LJ.
Yn gywir
Jessica Evans
Swyddog Codi Arian Achub y Plant – Rhaglen Cymru

Eisteddfod y Cymoedd

Annwyl Gyd-eisteddfodwyr,
Eleni byddwn yn cynnal Eisteddfod y Cymoedd am y bedwaredd flwyddyn yn olynol.

Cynhelir yr eisteddfod yn Ysgol Lewis i Ferched, Ystrad Mynach eleni eto. A'r dyddiad yw nos Wener, 15fed o Hydref gan ddechrau am 5.00 o'r gloch.

Y beirniaid eleni yw Alun Guy a Iona Jones (Cerdd), Catrin Llwyd (Llefaru), Aled Gwyn (Llenyddiaeth), Heulwen Jones (Dawns) a Wyn Mason (Crefft a Ffotograffiaeth). Y cyfeilydd fydd Lowri Evans.

Am fanylion pellach cysylltwch â Sian Griffiths ar 02920 889295 neu ar Sianpg@btinternet.com
neu Linda White ar 02920 882107

Mae croeso mawr yn eich disgwyl chi yn Ystrad Mynach nos Wener, 15fed o Hydref.
R. Alun Evans
Cadeirydd Eisteddfod y Cymoedd

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau i Ian Davies a Llinos Owen (Davies bellach!) a briodwyd yn Eglwys Dewi Sant ddydd Sadwrn, 24 Gorffennaf. Cwrddon nhw â'i gilydd yn Ysgol y Cymer. Mae Llinos yn ferch i Jeff ac Ann Owen. (Llun tudalen 4)

Pen Talar
Braf yw cael cyfres ddrama Gymraeg ar nos Sul unwaith eto a brafiach byth oedd gweld un o ddisgyblion Llanhari, Hannah Dando, yn eistedd yn daclus tu ôl i ddesg yn gwrando ar yr athro cas yn ystod yr ail bennod. Llongyfarchiadau i ti Hannah.

Hanes y tîm pêl-droed yn Awstria
Aeth tîm pêl-droed dan 13 Tonyrefail i gynrychioli Cymru mewn twrnament Ewropeaidd yn Awstria. Enillon nhw eu grŵp oedd yn cynnwys Kazacstan, y Weriniaeth Tsiec a Sbaen! Yn anffodus, collon nhw yn erbyn Portiwgal yn y rownd nesaf. Ond cawson nhw brofiad arbennig ac maent am ddiolch i'r hyfforddwyr i gyd ac yn enwedig i Andrew am drefnu'r daith. Mae pump o ddisgyblion Llanhari yn y tîm: Jac a Gruffydd Clements, Shaun Young, Joel Duffy a Gwynfor Dafydd. (Llun tudalen 16)

Cynhadledd Morwrol

Cynhelir cynhadledd hanes ar y thema 'Cymru, Casnewydd a'r Môr' ar benwythnos Tachwedd 13-14, 2010. Bore dydd Sadwrn cynhelir darlithoedd ar amrywiol bynciau morwrol gan arbenigwyr yn y maes a bydd cinio bwffe ar gael. Bydd mynediad am ddim i weithgareddau brynhawn dydd Sadwrn gyda amrywiol arddangosfeydd a stondinau ar gael hefyd, gan gynnwys stondinau llyfrau.
Gwybodaeth bellach: Robin Evans (01286 669066 neu 07979767931)
robin@carregmynach.freeserve.co.uk

Ar y Sul cynhelir amrywiol deithiau ac ymweliadau sy'n ymwneud â sawl agwedd ar hanes Casnewydd a'r fro. Trefnir y gynhadledd gan MOROL (Sefydliad Astudiaethau Hanes Morwrol Cymru) ar y cyd gyda Chyfeillion Llong Casnewydd a Chyngor Dinas Casnewydd.

Efail Isaf
Y TABERNACL
Parhad o dudalen 5

"Gwres yr Efail"
I gyd-fynd ag agor Y Ganolfan cyhoeddwyd llyfryn sy'n olrhain hanes Y Tabernacl gan Allan James ac Emlyn Davies. Cyflwynwyd y gyfrol fel teyrnged i Eirian Rees am ei gyfraniad a'i weledigaeth fel gweinidog yn Y Tabernacl. Os hoffech gael copi o'r gyfrol bydd croeso i chi gael un trwy roi cyfraniad o £4 i goffrau'r capel.

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad i Bryn a Myra Davies, Radyr ar golli brawd Bryn yn Llanymddyfri. Cydymdeimlwn â Bethan Roberts a'r teulu a hwythau wedi colli ewythr.
Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i Roy a Glenys Davies, Meisgyn a Roy wedi colli ei dad yn ystod y mis.

Merched y Tabernacl
Bydd y merched yn cerdded y llwybr troed ar hyd y ffordd osgoi ar ddydd Mawrth, Hydref 12fed, ac yn ymgynnull yn y Ganolfan Arddio am goffi bach ar ddiwedd y daith.

Llongyfarchiadau
Ein llongyfarchiadau gwresog ni o'r Tabernacl i'r Prifardd Glenys Roberts. Rydym fel aelodau'n llawenhau yn dy lwyddiant ysgubol.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Hydref
Hydref 3 Oedfa Gymun o dan ofal ein gweinidog
Hydref 10 Geraint Rees
Hydref 17 Oedfa Ddiolchgarwch Plant yr Ysgol Sul
Hydref 24 Elenid Jones
Hydref 31 Allan James a chyfarfod cyffredinol

safle swyddi
Hysbysfwrdd Rhyngweithiol Swyddi Cymraeg
www.safleswyddi.com

menter caerdydd

www.mentercaerdydd.org
029 20 56 56 58

Cyfarfod Blynyddol Menter Caerdydd

Nos Lun, Tachwedd 8, 2010 7pm
Swyddfa Menter Caerdydd
42 Lambourne Crescent,
Parc Tŷ Glas
Llanisien

menter@caerdydd.org

Clybiau a Gweithgareddau Tymor yr Hydref
Mae cannoedd o blant wedi cofrestru ar ein clybiau plant y tymor hwn, felly mae hi'n argoeli i fod yn dymor prysur iawn! Mae'r niferoedd ar gyfer y Clwb Nofio yn uwch nac erioed a dros cant o blant wedi cofrestru. Mae'r ymateb i'r clybiau newydd yn Nwyrain y ddinas wedi bod yn wych hefyd!

Am wybodaeth am y ddarpariaeth lawn o glybiau wythnosol, ewch i wefan y Fenter.

Cynlluniau Gofal Hanner Tymor yr Hydref
Fe fydd 3 Cynllun Gofal yn rhedeg yn ystod wythnos Hanner Tymor yr Hydref hwn – Ysgol Treganna, Ysgol Melin Gruffydd ac Ysgol y Berllan Deg. Fel arfer, fe fydd llu o weithgareddau difyr wedi'u trefnu ar gyfer yr wythnos. I gofrestru, ac i sicrhau eich bod yn derbyn y ffurflenni mewn da bryd, cysylltwch â Meleri – meleri@mentercaerdydd.org neu ewch i'n gwefan.

Croeso i Shan
Croeso mawr i Shân Morgan sydd wedi ymuno â'r Fenter yn ddiweddar i hyrwyddo a chasglu aelodau newydd ar gyfer e@chlysur. Fe fydd Shân yn ymweld â nifer o fudiadau a chymdeithasau Cymraeg y ddinas dros y misoedd nesaf yn casglu cyfeiriadau e-bost, ond os hoffech i Shân drefnu ymweld a'ch mudiad/cymdeithas chi, mae croeso i chi gysylltu â hi drwy e-bostio shanmorgan@mentercaerdydd.org.

Mynychodd dros 350 o blant ym mlwyddyn 6 weithdai arbennig yn hyrwyddo'r Côr newydd ar ddechrau'r tymor! Diolch i bawb a gymrodd rhan, ac i Mrs Lloyd ac Elan Isaac am gynnal y gweithdai!

Gweithgareddau Uwchradd Tymor yr Hydref
Mae 3 clwb wythnosol yn cwrdd erbyn hyn ar gyfer plant Blynyddoedd 7-10. Mae'r Clwb Canwio yn llawn a'r niferoedd yn wych ar gyfer y Côr a'r Theatr Ieuenctid, ond mae dal croeso i aelodau newydd!

Gweithgareddau Uwchradd Hanner Tymor
Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal gweithgareddau amrywiol yn ystod hanner tymor eleni gan gynnwys Gweithdy Band yng Nglwb Ifor Bach, Gig Dan Oed i blant 14+ fel rhan o ŵyl Sŵn, a phrofiad y Brawd Mawr mewn lleoliad cyfrinachol i blant blwyddyn 8.

Ewch i wefan y Fenter am fwy o fanylion am ein gweithgareddau Ieuenctid – www.mentercaerdydd.org

Gweithgareddau Cynradd dros Hanner Tymor
Mae amserlen brysur o weithdai ar y gweill ar gyfer hanner tymor yr Hydref. Mae'r gweithdai, sydd ar gyfer plant cynradd yn cynnwys Dawns, Trampolin, Hwylfyrddio a Hwylio, Gymnasteg, Lazer Tag, Animeiddio.

Fe fydd dau ddiwrnod hwyl yn cael eu cynnal yn ystod yr wythnos yn rhad ac am ddim – un yn Nwyrain y Ddinas, ac un arall yn y Gorllewin.

Mae'r gweithgareddau cynradd yn bartneriaeth rhwng y Fenter a'r Urdd yng Nghaerdydd

Ewch i wefan y Fenter am fwy o fanylion – www.mentercaerdydd.org

Cwis Tafarn y Mochyn Du
Fe fydd cwis nesaf y Fenter yn cael ei gynnal Nos Sul, Hydref 31 yn y Mochyn Du. 8pm. Croeso Calan Gaeaf i bawb!

Mae Menter Caerdydd yn darparu gwasanaeth ebost sy'n hyrwyddo gweithgareddau cymdeithasol Cymraeg i oedolion a phlant yng Nghaerdydd. Gallwch elwa o wasanaeth e@chlysur trwy gofrestru eich manylion ar y linc isod yn rhad ac am ddim. Gallwch hefyd hysbysebu unrhyw ddigwyddiadau Cymraeg y byddwch yn eu trefnu ar e@chlysur.

Bydd y wybodaeth yn gyfrinachol ac yn eiddo i Fenter Caerdydd yn unig. http://www.mentercaerdydd.org/

CLWB Y BONT

Cwmni Da.....
Cwrw Da.....
Rygbi ar Sgrîn
Deledu Enfawr!

Stafell Gefn ar gael i'w llogi (am ddim i aelodau).
Perffaith ar gyfer partïon penblwydd, nosweithiau codi arian Cymdeithas Rhieni ac Athrawon
ac ati.....

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Rob ar
01443 491424

Clwb y Bont, 85a Stryd Tâf, Pontypridd

Menter Iaith Rhondda Cynon Taf
Llawr Cyntaf, 9 Y Stryd Fawr,
Pontypridd. CF37 1QJ
01443 407570
www.menteriaith.org

Clybiau Chwarae Newydd
Mae'r Fenter wedi llwyddo i ennill cyllid i redeg tri chlwb chwarae ar ôl ysgol yn ysgolion Llwyncelyn, Llyn y Forwyn ag Ynyswen. Mae'r clybiau yma'n cael eu cynnal dwywaith yr wythnos (tairgwaith yn Llwyncelyn) ac yn rhâd ac am ddim i'w mynychu. Mae'r cyllid sy'n ein galluogi i gynnal y clybiau yn rhedeg tan ddiwedd Ebrill 2011, ond wrth reswm, y gobaith yw y byddant yn parhau wedi hyn.
(o.n. Dy'n ni'n chwilio am staff ar gyfer y clwb yn Ysgol Ynyswen. Os oes diddordeb gyda chi a bod gyda chi gymhwyster chwarae, yna cysylltwch â Sarah Thomas ar 07500 979288 mor fuan â phosib.)

NOSON HUW CHISWELL A LOWRI EVANS

Nos Wener, Hydref 22ain, yn Theatr Garth Olwg, Pentre'r Eglwys. Tocynnau £10 (£80 Tocyn Grŵp)
Am docynnau cysylltwch â 01443 219589
www.campwsgartholwg.org.uk

Gweithgareddau Ieuenctid yn ystod Wythnos Hanner Tymor
Mae gweithwyr ieuenctid y Fenter yn cynllunio wythnos lawn o weithgareddau ar gyfer wythnos hanner tymor yr Hydref. Bydd y gweithgareddau yn cynnwys penwythnos yng Nghwersyll Glan Llyn. Bydd y gweithgareddau i gyd yn RHÂD AC AM DDIM ac yn ffurfio rhan o gynllun Cymraeg E3+ Cyngor Rhondda Cynon Taf. Bydd mwy o fanylion am y gweithgareddau yn cael eu dosbarthu cyn hir yn yr ysgolion.

GILFACH GOCH

Gohebydd Lleol:
Betsi Griffiths

Y SPARTANS
Aeth dros 30 o aelodau Cymdeithas y Spartans i Montsoreau ar lan yr Afon Loire yn Ffrainc dros Ŵyl Banc Awst. Dyma'r 31ain cyfarfod i Gymdeithas y Spartans a'u ffrindiau yn Ffrainc. Wedi gadael Gilfach am 6 o'r gloch ar y nos lau a theithio dros nos, cyrhaeddodd y bws Montsoreau tua chanol dydd lle roedd Bwffe Croeso yn eu disgwyl.

Wedi cawod drom iawn wrth iddynt gyrraedd roedd y tywydd yn gynnes ac yn heulog am weddill yr ymweliad. Erbyn hyn 'does dim llawer o bobl yn aros ym Montsoreau ei hun ond yn hytrach yn Villebernier pentref yr ochr arall i'r afon gan fod Montsoreau yn bentref hynafol ac felly mae'n anodd iawn i bobl ifanc fforddio byw yno.
Wedi'r Bwffe Croeso aeth pawb i'r cartrefi i ail-gydio yn y cyfeillgarwch ac yna yn yr hwyr cynhaliwyd Barbiciw yn Villebernier.

Ddydd Sadwrn aeth dau lond bws i'r Gerddi Botaneg 'Terra Botanica' sydd newydd agor ger Angers - ateb Ffrainc i Lanarthne, lle cafodd pawb ddiwrnod bendigedig ac yna yn yr hwyr cynhaliwyd Disgo yn Villebernier.

Ddydd Sul cafwyd bore gyda'r teuluoedd ac yna yn y prynhawn cafwyd picnic ac amrywiaeth o gemau a boules wrth gwrs. Yna cafwyd y seremoni cyfnewid anrhegion. Yn ystod y Seremoni anrhegu cofiwyd am un o sylfaenwyr y cyfnewid sef Pierre Brancherau cigydd Montsoreau a fu farw yn gynt yn y flwyddyn yn 84 oed, ac yn ystod yr ymweliad aeth sawl un i fynwent Montsoreau i weld ei fedd ac i oedi er cof amdano. Nos Sul aeth pawb mewn bysiau i Fwyty yn yr Ogofau ger Saumur rhyw filltir neu ddwy i lawr yr afon lle cafwyd pryd bendigedig. (Mae'r cysylltiad rhwng Cymru a Saumur yn mynd nôl ymhell gan i Owain Lawgoch 'Ywain de GaIIes' fod yn bennaeth ar Chateau Saumur yn 1370!)

Daeth 8 o'r gloch bore dydd Llun yn rhy fuan o lawer ac roedd bws 'MainIine' yn aros i adael Villebernier am borthladd Le Havre.

GYMANFA GANU
Aeth aelodau Moreia i'r Gymanfa Ganu Cyd-enwadol a gynhaliwyd yn eglwys hynafol Llangeinor, sydd ar ben y mynydd rhwng Cwm Ogwr a Chwm Garw, ar nos Fercher Medi 7fed. Yr arweinydd oedd Mr David Spratt a'r organydd oedd Mr Peter David. Roedd yn dda i weld cynrychiolwyr o sawl eglwys yno. Wedi'r Gwasanaeth roedd cwpanaid o de a rhywbeth i fwyta i bawb .

PENBLWYDD
Llongyfarchiadau i Mrs Gerry Popham a ddathlodd ei phen-blwydd yn 80 oed. Dathlodd merched y Dosbarth Gwnïo yr achlysur drwy fynd a Gerry i Bontypridd i ginio canol dydd. Dymuniadau gorau iddi am lawer pen-blwydd eto. Mae'r merched wrthi'n brysur ar hyn 0 bryd yn gweu hosanau Nadolig ac ati i'w gwerthu er budd Tŷ Hafan.

Dewch i Chwarae a Sgwrsio
Dewch i ganolfan chwarae MERLIN'S CASTLE, (Enw newydd cyn bo' hir - Jolly Jesters) Station terrace, Pontyclun, bob bore dydd Gwener 11yb - 1yp am gyfle i gwrdd â ffrindiau newydd, cael paned a sgwrs yn y Gymraeg tra bod eich plant yn chwarae. Croeso i bawb! (Dysgwyr hefyd).

Am wybodaeth bellach ffoniwch Swyddfa Menter Iaith Rhondda Cynon Taf: 01443 407570

Y Gymraeg bob tro

Ydych chi eisiau i'r cyngor gyfathrebu â chi fel unigolyn, naill ai drwy lythyr neu dros y ffôn, trwy gyfrwng y Gymraeg?

Os felly, mae angen i'ch enw chi fod ar gronfa ddata gofal cwsmer y cyngor.

Ffoniwch, anfonwch lythyr neu neges ebost yn nodi'ch manylion (enw, cyfeiriad a rhif ffôn) ar gyfer sylw staff Uned Gwasanaethau Cymraeg y cyngor a nodi'ch dewis.

Uned Gwasanaethau Cymraeg
Tŷ Trevithick Abercynon Aberpennar CF45 4UQ

Caroline.m.mortimer@
rhondda-cynon-taf.gov.uk
01443 744033 / 744069

Staff newydd yng Nghylch Meithrin Creigiau

Croeso mawr i Rebecca Thomas i weithio yn y Cylch. Daw Rebecca o Lanhari ac mae hi a Sarah Wood yr aelod arall o staff yn gyn-ddisgyblion Ysgol Gyfun Llanhari.

Os am anfon eich plant i'r Cylch ar fore Mercher a Iau ffoniwch 07866 087042

CYLCH MEITHRIN EFAIL ISAF
Bob bore
Mawrth, Mercher, a Gwener
9.30 - 1.00
Bore Iau 9.30 - 12.30pm
TI A FI EFAIL ISAF
Dydd Iau 12.45pm - 3.00pm
Yn Neuadd y Pentref, Efail Isaf
Manylion: 01443 208806

TI A FI BEDDAU
Bob bore Mercher 10.00 - 11.30a.m.
yn Festri Capel Castellau, Beddau

TI A FI TONTEG
Bob dydd Mawrth 10 - 11.30
yn Festri Capel Salem, Tonteg

CYLCH MEITHRIN CREIGIAU
Mercher a Iau
9.30 - 12
TI A FI CREIGIAU
Bore Gwener 9.30 - 11.30
Neuadd y Sgowtiaid
Y Terrace, Creigiau
Manylion: 07866 087042

TI A FI PENTRE'R EGLWYS
1.15-2.45p.m. Neuadd Y Plwyf
Bob dydd Iau

CYLCH MEITHRIN CILFYNYDD
Bore Llun, Mercher a Iau
9.30-11.30
TI A FI CILFYNYDD
Dydd Gwener 9.30-11.30
Neuadd Y Gymuned,
Stryd Howell,Cilfynydd.
Manylion: Ann 07811 791597

CYLCH MEITHRIN BRYNNA
Dydd Llun - Gwener 9.30 - 12.30
01443 229723

CYLCH MEITHRIN PONTYCLUN
Dydd Llun - Gwener 9 - 12
07912 101506
Ti a Fi Pontyclun
Prynhawn Llun 1.15 - 2.45

CYLCH MEITHRIN THOMASTOWN
Dydd Llun - Iau 9.15 - 11.45
Ti a Fi bore Gwener 9.30 - 11.30
07757 633249

CYLCH MEITHRIN LLANHARI
4 bore 8.30-11.30
Neuadd yr Eglwys, Llanhari
Ffoniwch 07894651543

Ti a Fi Llanhari
Mawrth 1-3pm
Neuadd yr Eglwys

Teleri Jones
Swyddog Datblygu Rhondda Taf Mudiad Ysgolion Meithrin
07800 540316
teleri.jones@mym.co.uk

Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant

Hwyl Fawr a Chroeso

Erbyn hyn, disgwylir bod disgyblion Blwyddyn 6 llynedd wedi ymgartrefu yn eu hysgolion newydd, Ysgol Gyfun Llanhari, Ysgol Gyfun y Pant, Ysgol Gyfun Gartholwg neu Ysgol Gyfun Tonyrefail. Diolch yn fawr iddynt am eu cyfraniad i'r ysgol a phob lwc iddynt yn eu hysgol newydd.

Croeso mawr i'n disgyblion newydd. Mae 48 o blant bach Meithrin wedi dechrau yn yr ysgol yn Nosbarthiadau 1 a 2. Braf gweld yr ysgol ar dwf!

Croeso i'r staff newydd

Croeso i'r staff sydd wedi ymuno â ni eleni. Mae Mrs Ceri Llywellyn wedi dod atom ni o Ysgol Gynradd Bro Sannan, ac mi fydd plant Derbyn Dosbarth 4 o dan ei gofal hi. Hoffwn estyn croeso hefyd i Mrs Debbie Blacker a Miss Naomi Jones a fydd yn gweithio fel gweinyddesau dosbarth yn nosbarthiadau'r Cyfnod Sylfaen. Bydd Mrs Meaclem hefyd yn ymuno a'r staff addysgu yn rhan amser.

Llangrannog

Brynhawn Gwener Medi 24ain bydd nifer o blant Blwyddyn 5 & 6 yn gadael yr ysgol yn llawn cyffro mae'n siwr, i dreulio penwythnos yn Llangrannog o dan ofal Mrs Veck, Mr Williams, Miss R. Jones, Miss Ff. Jones a Mrs Woodward.

Cyngor yr ysgol

Mae'r amser wedi dod unwaith eto! Rydym wedi ethol plant o flynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5, a 6 ar gyfer ein cyngor ysgol.

Dosbarthiadau'r Babanod – Alys Thomas a Caitlin Richards

Dosbarth 9 – Ryan Wheeler a Lili Griffith

Dosbarth 10 – Dylan Edwards a Nicole Stark

Dosbarth 11 – Llew Jones a Lowri Morris

Dosbarth 12 – Liam Wheeler a Seren Dupree

Dosbarth 13 - Morgan Cockram ac Aimee Marchant

Ffotograffydd

Treuliodd tîm John Newman ddiwrnod cyfan yn tynnu lluniau holl blant yr ysgol a'u brodyr a'u chwiorydd bach! Methu aros i gael gweld y lluniau!

COFEBAU 'SAFE-FIX' MEMORIALS

Cofeb Yw'r Ffordd Orau O Ddathlu
Bywyd Un Annwyl A Hunodd

Mae cryn amrywiaeth pris rhwng Trefnwyr Angladdau a Seiri Maen ar gyfer cofebau

O GOFEBAU NEWYDD,
I YCHWANEGU ARYSGRIFEN
GLANHAU AC ADNEWYDDU
DIOGELU COFEB SIMSAN
DEWIS EANG O GYNLLUNIAU AR GAEL

Saer Maen Lleol
Gwasanaeth Ymweliad Cartref

Am fanylion pellach
cysylltwch ag Elliott

Ffôn Symudol: 07817618377

AWDURDODEDIG GAN B.R.A.M.M.
SAER MAEN CYDNABYDDIEDIG Y CYNGOR

Ysgol Pont Siôn Norton

Croeso
Croeso i Mr Emyr Chinnock sydd wedi ymuno gyda'r staff ym Mlwyddyn 1 a 2 fel myfyriwr dan hyfforddiant i fod yn gynorthwyydd dosbarth. Bydd Emyr gyda ni am dymor fel rhan o'i hyfforddiant.

Croeso mawr hefyd i'r plant meithrin sydd wedi dechrau yn yr ysgol ym Mis Medi. Maent wedi ymgartrefu yn dda iawn mewn byr amser.

Tŷ Tyfu
Mae'r disgyblion, eu teuluoedd a ffrindiau wedi bod yn brysur yn casglu poteli plastig dwy litr ar gyfer adeiladu Tŷ Tyfu yn rhandir yr ysgol. Rydyn ni wedi cyrraedd ein targed ac yn barod i ddechrau adeiladu. Da iawn bawb!

Rygbi
Mae aelod o dîm datblygu Gleision Caerdydd wedi bod yn cynnal sesiynau ymarfer rygbi gyda disgyblion Blwyddyn 3 a 4. Mae eu sgiliau'n gwella'n barod.

Adran yr Urdd
Mae Adran yr Urdd wedi ail-ddechrau bob nos Fawrth a'r Clwb Canu ar nos Iau.

Cymdeithas Rieni ac Athrawon
Cynhelir noson gymdeithasol yng Nghlwb y Gweithwyr, Trallwn nos Sadwrn Hydref 16eg. Bydd band y "Duplicates" yn perfformio sy'n cynnwys aelod o'n staff, Mr Rhodri Morgan. Mae tocynnau ar gael o'r ysgol. Dewch yn llu!

YSGOL GYNRADD GYMRAEG TONYREFAIL

Adeiladau'r Ysgol
Y newyddion mawr yw bod dwy ystafell ddosbarth dros dro ychwanengol wedi cyrraedd. Mae cabanau smart ar yr iard erbyn hyn. Gobeithio nad yw hyn yn golygu na fydd ysgol newydd cyn bo hir.

Croeso i'r athrawon newydd
Yn sgil y twf mae tri aelod newydd o staff yn yr ysgol: Sioned Wyn Jones, Cerys Owen a Chris Bromage. Croeso cynnes i'r tri ohonoch.

Hanes y Fro - www.efailisaf.org

Fel rhan o baratoi ar gyfer Arddangosfa Tabernacl mae llawer o wybodaeth am hanes ardal Efail Isaf a Llanilltud Faerdref wedi ei gasglu. Gallwch wewld yr hanes ar yr wefan www.efailisaf.org. Os oes gennych wybodaeth neu lluniau am yr ardal rhowch wybod i ni pentyrch@tafelai.net.

CORNEL Y PLANT

RHOWCH Y GEIRIAU YN Y BLYCHAU CYWIR

AUR	GYR	OER	PLA	TWT
DOD	HET	OFN	TAD	ULW
ENW	HUD	OND	TIR	WAD
ETO	IET	PIG	TRO	YSU



Lliwiwch y lluniau



Helpwch Elgan i groesi'r afon at ei ffrindiau. Rhaid iddo gamu o garreg 1 hyd at garreg 5 i gyrraedd.



Dau ymddiriedolwr newydd i Fwrdd y Cyngor

Mae bwrdd ymddiriedolwyr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill yn gyflawn wedi apwyntiad dau wyneb newydd, Geraint Rees a Dr Morfudd Keen O.B.E.

Mae Geraint Rees, sy'n byw yn Efail Isaf, Rhondda Cynon Taf, yn Ymgynghorydd i Brifathrawon Ysgolion Uwchradd a hefyd yn Gadeirydd newydd panel Beirniaid y Gwobrau Dysgu yng Nghymru. Mae gan Geraint 25 mlynedd o brofiad mewn addysg a gweithio gydag ieuenctid ar bob lefel.

Mae Dr Morfudd Keen, sy'n byw yn Rhiwbeina, Caerdydd, wedi ymddeol fel seiciatrydd ymgynghorol ac wedi gwneud llawer iawn o waith ym maes camddefnydd sylweddau. Derbyniodd anrhydedd OBE am ei gwasanaeth yn helpu trin dibyniaeth. Bu Morfudd yn gweithio ym maes dibyniaeth am dri deg mlynedd fel Cyfarwyddwr Clinigol y Gwasanaethau Dibyniaeth yng Nghaerdydd a bu'n aelod o'r Cyngor Ymgynghorol ar Gamddefnydd Cyffuriau am naw mlynedd ac yn aelod o Gyngor Ymchwil ac Addysg Alcohol.

Dywedodd Geraint Rees, "Fues i'n gweithio fel gwirfoddolwr gyda'r Cyngor bron i 30 mlynedd yn ôl ac rwy'n falch iawn i fod yn gweithio gyda'r sefydliad gwych yma unwaith eto. Rwy'n edrych ymlaen i'r sialens newydd ac o weithio gyda Wynford a'm cyd ymddiriedolwyr i wireddu strategaethau'r Cyngor."

Ychwanegodd Dr Morfudd Keen, "Mae Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill yn sefydliad holl bwysig ac rwy'n edrych ymlaen at gefnogi Wynford a phrosiect Yr Ystafell Fyw Caerdydd sydd gan lawer iawn i'w gynnig i ddioddefwyr a'u teuluoedd."

Dywedodd Wynford Ellis Owen, Prif Weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill, "Rwy'n croesawu'r apwyntiadau newydd hyn ac yn edrych ymlaen at weithio gyda nhw dros y misoedd sydd i ddod.

"Mae prosiect Yr Ystafell Fyw Caerdydd yn dod ymlaen yn dda ac fe fydd hwn yn chwyldroi triniaeth dibyniaeth ar alcohol a chyffuriau ac ymddygiadau caethiwus eraill yng Nghymru. Mae'r pwyslais ar wellhad yn hytrach na'n syml rheoli'r dibyniaeth. Mae cael profiad, sgiliau a brwdfrydedd bwrdd y Cyngor yn mynd i fod yn werthfawr iawn i ni wrth i'r fenter newydd ddatblygu."

C
CROESAIR
L

Dyma gyfle arall i chi ennill Tocyn Llyfrau

Ennillwydd mis Medi:
Mrs G Edwards, Pontyclun.



Ar Draws

7. Ceirios y wern (8)
8. Cawell baban (4)
9. Gwastadol (6)
10. Dychwelyd i gyfeiriad gartref (6)
11. Y diwrnod o flaen Dydd Mercher y Lludw (4)
12. Darn o'r môr yn ymestyn i mewn i'r tir (8)
14. Criafolen (8)
18. Ceffyl ieuanc (4)
20. Gwisgfa capel (6)
22. Dydd olaf yr wythnos (6)
23. O ffurf cylch (4)
24. Yn cynnwys yr un elfennau ond yn gwahaniaethu yn eu nodweddion (8)

I Lawr

1. Trotian (6)
2. Mebyd (8)
3. Dymchwelyd tir (6)
4. Anghywir (6)
5. Erw (4)
6. Llunio (6)
13. Talog (8)
15. Adar dŵr urddasol (6)
16. Sboncio (6)
17. Agosaol (6)
19. Rhynllyd (6)

Atebion i: Croesair Col
34, Pen Bryn Hendy, Yr Encil, Meisgyn, Pontyclun. CF72 8QX
erbyn 15 Hydref 2010

Atebion Medi

D	A	F	N	■	■	C	■	C	■	C	■	A
■	M	■	O	F	N	A	D	W	Y	A	E	TH
O	N	I	D	■	■	N	■	R	■	N	■	R
■	E	■	W	■	G	W	O	B	R	W	Y	O
P	W	LL	Y	N	■	Y	■	■	■	■	M	■
■	I	■	DD	■	C	R	O	■	C	■	B	■
A	D	F	E	DD	U	■	O	C	R	A	E	TH
■	I	■	S	■	B	A	D	■	O	■	L	■
■	A	■	■	■	■	N	■	E	N	N	Y	D
A	D	D	R	E	F	N	I	■	I	■	D	■
N	■	O	■	■	■	I	■	■	C	A	R	W
A	N	F	W	R	I	A	D	O	L	■	O	■
D	■	I	■	■	■	U	■	■	O	■	L	■

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Croeso nôl o Costa Rica
Dychwelodd Medi Warburton a'i chyd-fyfyrwyr o Brifysgol John Moores Lerpwl yn ddiweddar o daith drofannol anturus ym Mharc Cenedlaethol Santa Rosa yng Ngogledd Orllewin Costa Rica. Gorchwyl Medi yn y Fforest Law Sych oedd gwneud arolwg o'r morgrug deildorrol a grwydrai tu allan i'r llety, yng nghwmni'r agwtis (moch cwta mawr) a'r llu o greaduriaid eraill. Yn ystod ail hanner y daith, ar yr arfordir, bu rhaid iddi arolygu cyflwr y rîff cwrel, ond y tro yma môr-grwbanod Riddley, morfilod cefngrwm, morgathod duon (stingrays) a siarcod oedd ei chymdeithion. (Lluniau tudalen 13)

Croeso i Bentyrch
Croeso i Lynne a Brian Ilbery i'w cartref newydd yn The Rowans, Bronllwyn, o ardal Rugby. Bu Lynne, sy'n wreiddiol o Gaerfyrddin, yn athrawes gynradd yn Coventry tra bo Brian yn dal i weithio'n rhan-amser fel Athro Astudiaethau Cefn Gwlad mewn Sefydliad Ymchwil yn Cheltenham. Bydd eu dau fab, Gareth a James, hefyd yn ymweld â'u rhieni pan fyddant yn rhydd o'u gwaith yn ardal Llundain.

Dymuniadau Da
Dymunwn adferiad buan a llwyr i Lisa Mair Williams yn dilyn ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

Bronti yn cyrraedd Ysgol Santes Tudful
Sawl prifathro yng Nghymru sy'n gallu ymffrostio bod ganddynt ddeinosor anferth ar faes yr ysgol? Gall Dewi Hughes wneud hynny, wedi iddo lwyddo i ennill y fraint o roi cartref newydd i Bronti yn Ysgol Santes Tudful. Cariwyd y deinosor 30 troedfedd o faint o'i hen gartref yn ogofau Dan yr Ogof i'r ysgol gan hofrennydd. Bydd gan y disgyblion stori anhygoel i'w hadrodd pan yn sôn am eu deinosor personol nhw!

Merched y Wawr
Cynhaliwyd cyfarfod llwyddiannus iawn ym Methlehem, Gwaelod y Garth ar ddechrau mis Medi. Daeth Caryl (o'r grŵp Triban gynt) a'i chwaer Glynis i ddiddori bron i 40 o aelodau. Bu Caryl yn brifathrawes yn Ysgol Pont Sion Norton ac fe'n swynodd ni fel mae'n siwr y swynodd ei disgyblion gyda'i chaneuon ac atgofion, tra darllenodd Glynis ambell ddarn o farddoniaeth i gyfoethogi eu cyflwyniad.

Cafwyd cyfle hefyd i longyfarch Glenys Roberts ar ei champ odidog yn ennill y goron yn Eisteddfod Glyn Ebwy, a braint oedd cael gwrando arni yn darllen un o'r cerddi – " Y rhith ger Gellilydan "- wedi iddi egluro beth oedd cefndir y gerdd.

Llongyfarchiadau
Cafodd criw o ddisgyblion Ysgol Plasmawr achos i ddathlu ar ddiwedd mis Awst wedi iddynt dderbyn eu canlyniadau Safon Uwch. Llongyfarchiadau gwresog i Carys John, Megan Jones, Robert Morgan, Branwen Owen, Alys Perry a Mathew Sutton. Bydd Carys yn mynd i Efrog, Megan i Aberystwyth i ddilyn cwrs Rheoli Cefn Gwlad, Robert i Fryste i astudio Meddygaeth, Branwen i Lundain i ddilyn cwrs Astudiaethau Crefyddol a Gwyddeleg a Mathew i Fryste i ddilyn cwrs Cynllunio Cynnyrch. Pob lwc a llwyddiant iddynt i gyd yn eu gwahanol feysydd.

Pob lwc hefyd i Natalie Cashin sydd ar fin dechrau ar gwrs Cynllunio Ffasiwn ym Mryste ar ôl cwblhau blwyddyn o Gwrs Sylfaen ym Mhrifysgol Morgannwg.

Gradd Uwch
Dymunwn yn dda i Gareth Williams, Perthi Bach, wrth iddo ddechrau ar ei gwrs M.Phil. mewn Astudiaethau Eingl - Sacson, Hen Norwyeg a Cheltaidd yng Ngholeg Clare, Caergrawnt.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Dymuniadau gorau
Penblwydd hapus i Delyth Davies, Cilfynydd sy'n dathlu penblwydd arbennig. Mae hi'n edrych mlan at nifer o deithiau rhad ar y bws!

Llongyfarchiadau
Bu Maralyn a Mike Edwards, Graigwen yn dathlu eu priodas ruddem yn ddiweddar. Pob dymuniad da.

Merched y Wawr
Cawsom agoriad ardderchog i'r tymor newydd yng nghwmni Marian Ifans a'i hanesion difyr a'i hesiamplau gwych o frodwaith. Braf oedd croesawu Myfanwy Lloyd i'n plith sy wedi symud i fyw i'r Parade, Pontypridd.

Byddwn yn cwrdd nesa ar Hydref 7fed yn siop 925 Treats (ar bwys siop sglods Park Café) am 7.15. Cawn gyfle i edrych ar gynnwys y siop fach ddiddorol a hwyrach prynu ambell "treat"!

Clwb Llyfrau
Byddwn yn cwrdd mis yma ar y 12fed yng Nghlwb y Bont am 8.00 i drafod nofel gan yr awdures leol Catrin Collier sef "Beggars and Choosers".

Mis Tachwedd y llyfr dan sylw fydd "Adenydd Gloyn Byw" gan Grace Roberts. (Enillydd gwobr Daniel Owen eleni.)

Fis Rhagfyr cawn drafod hunangofiant Meic Povey.

Croeso cynnes i bawb!

Ser y dyfodol
Cafodd Huw Blainey a Jay Worley gyfle i fod yn aelodau o Gwmni Theatr Ieuenctid Cymru. Buont am fis yn Aberystwyth ym mis Awst cyn mynd ar daith fer gyda'r cynhyrchiad dwyieithog "Diwrnod heb ei Debyg / No other Day like today."

Priodas.
Llongyfarchiadau i Rhian Radcliffe a Rhys Lloyd, Parc Graigwen. Priodwyd y ddau mewn seremoni ym Mhontypridd ddiwedd Awst gan ddathlu yn Neuadd Llechwen.

Pontypridd ar y Map
Dau o Bontypridd oedd yn cadw cwmni i Aled Sam ac Alex Jones ar raglen olaf y gyfres "Tocyn Penwythnos". Bu Kirsty a'i mab Thomas yn ddigon ffodus i dreulio penwythnos yn Palma, Mallorca.

O Bontypridd daeth un o raglenni "Bro" S4C. Braf oedd gweld wynebau gwahanol yn tywys Iolo Williams a Shan Cothi o gwmpas yr ardal. Cafwyd cyfweliadau gyda Magi Dodd, Alun Reynolds a Guto Davies.

"Yma wyf innau i fod" - ie dyna chi - dyma ni nôl eto ym Mhontypridd! Bu Aneirin Karadog a Catrin Dafydd yn crwydro'r dref ar gyfer un o raglenni Radio Cymru. Roeddent yn chwilio am ysbrydoliaeth i ysgrifennu can i adlewyrchu'r lle. Buont yn sgwrsio â Brett Duggan yng Nghlwb y Bont. Hefyd gyda Gwen a Gwyn Griffiths, Maesycoed. Mae Jamie Bevan - sy'n gweithio gyda Menter Iaith Merthyr hefyd a chysylltiadau a'r ardal - cafodd ei addysg ysgol gynradd ym Mhont Sion Norton.

'Knight Watchmen' o dan arweiniad eu capten Andrew Morgan yn ennill twrnament criced Creigiau
(Stori tudalen 14)



Priodas Helen a Carl Childs, Pontypridd, yn y Village Hotel

'BRO' Pontypridd

Andrew Good

Sgwrsio gyda Shân Cothi yng Ngorsaf Tân Pontypridd . **Gavid David**

Guto Davies a Rhys Downes yng Nghlwb Rygbi Pontypridd

Kirsty a Thomas ar Tocyn Penwythnos ym Majorca

Cafodd Mabli Haf Rogers - trysor bach Anna ac Aled - ei geni ym mis Gorffennaf. Llongyfarchiadau a phob bendith yn eich cartref newydd yn Ffynnon Taf.

Costa Rica - Playa Naranjo a'r mwnciod wyneb gwyn Capuchin brodorol (stori tudalen 12, lluniau Dr S Durr).

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
029 20890979

Y Lludw yn dod i Creigiau!!!!!
Ar ôl y tywydd dychrynllyd yr wythnos flaenorol roedd rhaid cadw llygad barcud ar y cymylau duon rhag ofn iddynt ddifethar'r twrnament criced oedd wedi ei drefnu gan Martin Powell o'r clwb criced ynghyd â Creigiau 23 ddydd Sul Awst y 29ain. Bwriad y diwrnod oedd cael ychydig o hwyl wrth i wahanol dimoedd o'r pentref gystadlu yn erbyn ei gilydd. Eleni roedd 6 tim yn awyddus iawn i gipio'r cwpan sef Creigiau 23 All Stars, Calypso Chaos, The Knight Watchmen, The Terrorist, Buckland Babes a The Full Monty. (Llun tudalen 13)

Bu brwydro brwd rhwng nifer o'r timoedd, pob un yn ysu am gael 6 rhediad neu gipio wiced neu ddwy ond yn y diwedd roedd y 'Knight Watchmen' yn ormod o sialens a nhw gariodd y cwpan o dan arweiniad eu capten Andrew Morgan gyda 'The Full Monty' yn ail o dan arweiniad Glyn Thomas. Roedd yn ddiwrnod hwyliog iawn â nifer o wahanol weithgareddau'n digwydd ar y cae.

Cynhaliwyd barbeciw a bar gan Creigiau 23 a'r byrgers unwaith eto yn llwyddiant mawr. Cafwyd helfa drysor a thwrnament bowlio a dal i'r plant tra bod cacennau'n cael eu gwerthu o'r pafiliwn – ni fyddai'n dwrnament criced os nad oedd 'na de a chacs, a Siop Sian yn atyniad mawr i'r plant!!!!!

Diolch i bawb a fu'n trefnu ac yn cystadlu a gobeithio y bydd y cymylau duon yn cadw draw y flwyddyn nesa.

Cerddorion Creigiau
Llongyfarchiadau fil i gerddorion ifainc y pentref ar eu perfformiadau *disglair* dros yr haf! Llwyddodd Dan Angell, Christopher Paddison a Tom Miles i ennill eu Gradd 3 ar y trombón. Yn ennill Gradd 3 yn ogystal ond ar y trwmped/corned y tro hwn mae Gareth Powell, Katie Holley, Tom Preest a Gruffydd Roberts. Llwyddodd Michael Roberts i ennill ei Radd 2 ar y trwmped ac Owain Rose a Cai Cox yn sicrhau eu Gradd 1! Da iawn chi blantos! Daliwch ati i ymarfer a diolch arbennig i John Leach am eu hyfforddi.

Disgyblion disglair
Cafwyd canlyniadau anhygoel o dda gan ddisgyblion Blwyddyn 13 y pentref eleni a bydd colled enfawr ar eu hol wrth iddynt ymadael am eu colegau pell ag agos! Bydd ambell i nyth yn wag yn ogystal bid siwr!

Dymunwn yn dda i'r canlynol wrth iddynt ddilyn llwybrau academaidd pellach -

Geraint Herbert sy'n mynd i astudio Meddygaeth ym Mhrifysgol Imperial, Llundain

Gareth Rosser sy hefyd yn mynd i Imperial ond i astudio Ffiseg a Sbaeneg

Emma a Nicky Williams, yr efeilliaid sy ar fin cychwyn ym Mhrifysgol Abertawe, Emma i astudio'r Gyfraith a'i brawd Nicky i astudio Saesneg (fydd cefn bar y Kings fyth yr un peth hebddot, Nicky!)

Astrid Morgan sy'n mynd i astudio Ffrangeg a Sbaeneg ym Mhrifysgol Southampton

Elinor Wall a Carly Latcham fydd yn dechrau yn y Met yn Abertawe ac yn ddiddorol iawn yn rhannu 'stafell yno. Astudio 'rheolaeth digwyddiadau' fydd Elinor tra bydd Carly yn dilyn cwrs rheolaeth *motor sport.* Cofio Carly yn ferch fach ifanc yn cipio'r holl wobrau am wibio o gwmpas trac Llandow yn ei cherbyd? Dilynwn ei gyrfa gyda chryn ddiddordeb!

Daniel Wilson sy'n mynd i UWE, Bryste. Lwc dda i chi un ag oll. Gwnewch eich gorau - ond cofiwch fwynhau! Dewch ag ychydig o'ch hanes - o fewn rheswm - i ni gael rhannu yn eich llwyddiannau.

Geraint Herbert Dip ABRSM
Cyn gadael am Lundain gwnaeth Geraint sicrhau nad oedd ei gymhwyster piano yn cael ei anwybyddu. Llongyfarchiadau mawr ar ennill dy lythrennau! Gobeithio y cei gyfle i roi dy ddoniau cerddorol ar waith yn y ddinas fawr!

Babanod yr haf!
Llongyfarchiadau Siwan (Thomas gynt) a Simon ar enedigaeth Mali Catrin. Chwaer fach newydd sbon i Steffan - nid mor fach Siwan! Ganed Mali ar yr wythfed o Awst eleni.

Llongyfarchiadau hefyd i Elin a Marc Evans - daeth Gruffydd Daniel i'r byd yn daclus ar y cyntaf o Fedi eleni. Bydd Efa Fflur yn chwaer fawr garedig i Gruffydd 'dan ni'n siwr! Llun i ddod gyda lwc!

Noson i'w Chofio
Carai Colin a Nia ddiolch o galon i'n holl ffrindiau am wneud ein noson o ddathlu yn ddiweddar yn noson mor gofiadwy! Wydden ni ddim bod gennym gymaint o ffrindie! Diolch o galon am eich haelioni! A diolch i'r plant am eu trefniadau anhygoel!

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y Mis: Allan James

Arholiadau
Llongyfarchiadau mawr iawn i ddau aelod o deulu Parker o'r Groesfaen. Pasiodd Rhodri ei arholiad gradd 4 ar y trwmped gyda theilyngdod a phasiodd Carwyn ei arholiad gradd 1 ar y drymiau hefyd gyda theilyngdod. Da iawn chi fechgyn ac ymlaen â chi!

TROSGLWYDDO

Doedden ni ddim yn eu nabod,
Clywed amdanynt wnaethom ni –
Y rhai fu'n clirio'r tir,
Yn agor sylfaen
A gosod maen ar faen
I godi'r tŷ.
Clywed eu taro taer
Ac eco'u ffydd yn galw arnom
I dreulio'r meini
Â mynd a dod eglwys a chymuned.

Eu treulio â gwres ein gweithgaredd,
A'u trwsio'n gain
i'w cludo'n gynnes i'r dyfodol,
I chithau yn eich tro eu trin
Ag anian eich cenhedlaeth chi.

Ac eco hen gyfamod yn eich clustiau.

Y Prifardd Glenys M. Roberts

Dal wrthi!
Braf oedd darllen hanes ein Prifardd Glenys yn Tafod Elái y mis diwethaf a braf hefyd yw nodi y mis yma ei bod dal yn brysur yn cyfansoddi. Uchod mae cerdd Glenys i ddathlu achlysur agoriad y Ganolfan yng nghapel y Tabernacl Efail Isaf. Diolch Glenys am gerdd mor briodol.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Gethin White a Danielle Griffiths o Fryn Sadler ar eu dyweddiad yn ddiweddar.

Ail gydio yn y gwaith
Braf gweld bod Rhian Griffiths o Forest Hills, Tonysguboriau wedi gwella digon i fod nôl yng nghanol y plant yn ysgol Llantrisant. Cymera bwyll Rhian!

Llwybr
Llongyfarchiadau mawr i'r criw fu'n brwydro'n galed i ail agor y llwybr ger yr afon ar waelod Forest Hills a'r gobaith nawr ydy nad aiff dim arall o'i le ac y bydd ar agor i'r cyhoedd yn fuan iawn.

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at Nanette, Emma a Tim Russell o Forest Hills, Tonysguboriau ar golli gŵr a thad mor sydyn. Mae Emma bellach yn dysgu yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llantrisant a Tim yntau yn byw yn Florida.

Hanes y Gymdeithas Feddygol
Ar ddechrau'r flwyddyn, cyhoeddodd John Jenkins o Grud yr Awel, Meisgyn ei chweched llyfr: The Serpent the Staff and the Dragon - hanes cymdeithas feddygol y BMA yng Nghymru. Yna, yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas yn Brighton dros yr haf, derbyniodd fedal am ei wasanaeth neilltuol i'r BMA.

Penblwydd Arbennig
Llongyfarchiadau i Carole Willis, Llwyn-y-pennau, Groesfaen, ar ddathlu pen-blwydd arbennig ym mis Awst.

YSGOL GYFUN GARTH OLWG

(Lluniau tudalen 16)

Pump Aelod Bl 13 yn cael gweld y Pab !

Roedd pump aelod o'r Urdd sydd ym Mlwyddyn 13 Ysgol Gyfun Garth Olwg, yn Abaty Westminster nos Wener 17 Medi 2010 wrth i'r Pab Bened XVI ac Archesgob Caergaint, Rowan Williams, gynnal gweddi'r hwyrnos.

Cyn y daith dywedodd Swyddog Ieuenctid Rhondda Cynon Taf, Eleri Mai: "Anfonwyd y gwahoddiad i'r Urdd a ches i'r cyfrifoldeb o drefnu'r daith. Roedd Steve Williams, Tomos Watkins, Elinor Thomas, Danielle Williams a Jarad Sainsbury wrth eu bodd yn cael y cyfle. Meddai Eleri Mai, "Mae'r pump yn astudio Addysg Grefyddol Lefel A ac yn ymwneud llawer â gwaith yr Urdd. Roedd hi'n gwneud synnwyr felly y bydden nhw'n elwa'n fwy na phlant eraill. Fe fydd yn brofiad anhygoel ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr i fod yn rhan o'r achlysur hanesyddol."

Dywedodd Tomos Watkins, 17 oed o Ffynnon Taf: "Mae gan y pump ohonon ni farn wahanol am grefydd. Er efallai bod barn Y Pab am rai materion yn wahanol i'n rhai ni, fe fydd bod yn rhan o'r achlysur yn wych. Dwi i ddim wedi bod yn yr abaty o'r blaen ac rwy'n edrych ymlaen at weld Llundain mewn gwedd newydd."

Mae hi'n 28 mlynedd ers i'r Pab John Paul II ymweld â Phrydain.

Wythnos Modiwl Iaith Bagloriaeth Cymru

Yn ystod yr wythnos 21 – 25 Mehefin bu Blwyddyn 12 yn astudio pedair iaith, Eidaleg, Sbaeneg, Punjabi a Siapanaeg fel rhan o weithgareddau hanfodol astudio Bagloriaeth Cymru.

Daeth Catarina atom i ddysgu Eidaleg o Brifysgol Caerdydd a Kiyo, hefyd o Brifysgol Caerdydd i ddysgu Siapanaeg. Cafwyd cyfnod hynod ddiddorol yng nghwmni Mr Bobby Singh a fuodd yn addysgu Punjabi yn ogystal â chyflwyno llawer am ei ddiwylliant personol.

Cafodd y disgyblion brofiadau unigryw yn y pedair iaith, gan gynnwys gwersi coginio Eidaleg, gwersi coginio cyri Indiaidd a sushi Siapaneaidd. Cawsant hefyd y cyfle i ddawnsio Banghra.

Gweithgareddau Haf Yr Urdd

Dros yr haf fe gafodd nifer o bobl ifanc yr ysgol gyfleoedd newydd, cyffrous a chyfle i siarad Cymraeg yn ystod gwyliau'r ysgol. Trefnwyd dau weithgaredd dan nawdd "Fframwaith", wrth gydweithio gyda swyddogion Ieuenctid Ysgolion Llanhari, Cymer a Rhydywaun i drefnu diwrnod Gwibgartio yng Nghasnewydd. Cafwyd diwrnod penigamp, gydag Aled Maughan yn llwyddo i gyrraedd y brig. Llongyfarchiadau i bawb gymerodd ran, a chyfle i ddisgyblion yr ysgolion wneud ffrindiau gyda phobl ifanc o'n chwiorydd ysgolion!

Hefyd dros yr haf, cafodd y criw gyfle i gael gwersi syrffio trwy gyfrwng y Gymraeg ar draeth Llangennith, Y Gwŷr. Mwynhaodd pawb y diwrnod a meistroli sgiliau syrffio, ond Mathew Parfitt oedd yn serennu ar y diwrnod.

Gyda chefnogaeth Menter Iaith Rhondda Cynon Taf cafodd criw o ddisgyblion Bl. 7 a 8 y cyfle i fynychu cwrs preswyl awyr agored yng Nghaerdydd, gyda phobl ifanc o Ysgolion Llanhari, Cymer a Rhydywaun yn mynychu'r tridiau hefyd. Llety am y tridiau oedd Gwersyll yr Urdd, Bae Caerdydd. Cafodd y criw gyfle i feicio, hwylio, a gweithgareddau adeiladu tîm yn ystod y dydd ynghyd â bowlio yn y nos. Cyn ffarwelio cafodd pawb y cyfle i gymdeithasu a chael hyfforddiant dringo trwy gyfrwng y Gymraeg yng Nganolfan Boulders. Cafwyd tridiau hwylus a phawb yn ysu i gael y cyfle i fynd eto!

Dinasyddiaeth Fyd Eang

Dros wyliau'r haf bu nifer o ddisgyblion y 6ed yn teithio gwahanol wledydd i gynorthwyo plant a phobl ifanc sy'n byw mewn amgylchiadau dan anfantais.

Bu Elinor Rhys Blwyddyn 13 yn cynrychioli Mudiad Guides Cymru a Phrydain yn yr India. Bu naw disgybl ar alldaith drwy Affrica gyda CAMRE CYMRU – a Mr Llyr Evans. Bu'r profiadau yn rhai bythgofiadwy i'r myfyrwyr yn y ddwy wlad. Mwy o wybodaeth yn y rhifyn nesaf!

Llongyfarchiadau i ddisgyblion Garth Olwg!

Unwaith eto eleni rydym yn dathlu blwyddyn o ganlyniadau arholiadau TGAU, Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol llwyddiannus iawn. Mae'r ysgol yn parhau i fynd o nerth i nerth a'r safonau'n gyson godi - cyflawnodd nifer o unigolion yn uchel iawn. Braf gweld canlyniadau TGAU yn codi o flwyddyn i flwyddyn hefyd gyda 72% o ddisgyblion yn ennill graddau A* - C, a 92% yn ennill o leiaf un radd A* - C. Rydym yn llongyfarch ein disgyblion yn fawr iawn am eu gwaith arbennig ac yn ymfalchio yn eu llwyddiant. Rydym hefyd yn llongyfarch ac yn diolch i staff yr ysgol am eu hymroddiad diflino i gyrraedd y safonau uchaf.

Rhaglen "Dechrau Arni"

Eleni dechreuodd y flwyddyn ysgol mewn ffordd gwahanol i ddisgybion Garth Olwg! Penderfynwyd dechrau'r tymor gyda threfniadau oedd yn caniatáu inni gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau addysgiadol gwahanol i'r hyn a ellir ei wneud gydag amserlen arferol.

Treuliodd Blwyddyn 7 wythnos lawr yn Llangrannog yn dod i adnabod ei gilydd ac yn cymdeithasu drwy gyfrwng y Gymraeg tra bod gweddill yr ysgol yn 'Dechrau Arni' – rhaglen newydd sbon eleni!

Yn ystod yr wythnos nid oedd yr ysgol yn dilyn amserlen arferol ond yn hytrach roedd pob disgybl yn cael cyfleoedd gwahanol ar gyfer gwaith prosiect neu waith estynedig oedd yn cysylltu'n uniongyrchol a'u gwaith yn ystod y flwyddyn neu'r tymor i ddod. Yn y modd hwn cawsant gyfle i ddechrau datblygu'r sgiliau a'r ymagweddau sydd eu hangen ar gyfer llwyddiant o fewn y rhaglen ddysgu sy'n berthnasol i flwyddyn benodol.

Roedd rhaglen arbennig i bob blwyddyn ac roedd teithiau o gwmpas De Cymru hefyd!

Rhaglen Dyfodol Personol Garth Olwg 8 – 10 Gorffennaf

Ar ddiwedd Tymor yr Haf cynhaliodd yr ysgol ddau ddiwrnod o brofiadau addysgol ar gyfer datblygu gwybodaeth a sgiliau bywyd disgyblion. Bu'n ddau ddiwrnod hynod lwyddiannus gydag amrywiaeth helaeth o ddarparwyr yn cyfrannu eu harbenigedd, yn ymestyn o'r Heddlu, Gwasanaeth Ambiwlans, Gwasanaethau Gwrth Alcohol a Chyffuriau a Gofalwyr Ifanc.

Braf iawn oedd croesawu Pennaeth a Dirprwy Bennaeth Uwchradd a Phennaeth Ysgol Gynradd o Uganda i rannu eu profiadau gyda ni fel rhan o'r prosiect "Cysylltu Ystafelloedd Dosbarth". Roedd y disgyblion yn rhyfeddu pa mor wahanol oedd eu profiadau ysgol.

Rydym yn ddiolchgar i'r holl ddarparwyr am roi o'u hamser i gynnig profiadau sydd wedi cyfoethogi bywydau ein disgyblion. Llawer iawn o ddiolch i Mrs. Liz West am drefnu'r ddau ddiwrnod.

Agor Ffordd Osgoi Pentre'r Eglwys

(Parhad o dudalen 1)

Talodd Carwyn Jones, Prif Weinidog Cymru, deyrnged arbennig i'r holl bobl a fu'n brwydro dros agor y ffordd. Pleser oedd cael bod yn rhan o'r agoriad a dysgu cymaint am sut yr aeth cwmni COSTAIN ati i adeiladu'r ffordd gan sicrhau eu bod yn diogelu cymaint o amgylchfyd naturiol yr ardal â phosib.

Maent wedi sicrhau ffordd gymunedol ar gyfer trigolion yr ardal, sy'n rhoi cyfle i feicio, cerdded a rhedeg - ffordd bleserus iawn i gadw'n heini! Hefyd mae twneli arbennig ar gyfer moch daear, pontydd ar gyfer y pathew sy'n byw yn yr ardal yn ogystal ag ail-greu amgylchfyd naturiol pili-pala'r morfa.

Agorodd yr heol deufis yn gynnar a hefyd £2m o dan y gost gwreiddiol. Roedd y cwmni hefyd yn ymfalchïo yn y ffaith na fu'r un ddamwain i un o'r ddau gant o weithwyr ar hyd y deunaw mis y bu'r cwmni'n gweithio ar yr heol. Cafodd disgyblion yr ysgolion cynradd yn ogystal â ni yma yng Ngarth Olwg y profiad arbennig o fod yn rhan o'r osgordd a deithiodd ar y ffordd o Swyddfeydd Costain ac ar hyd yr heol newydd i drogylch Tonteg.

Fel teyrnged i gwmni adeiladu ceir Cymraeg Gilbern, oedd â'i ffatri yn Llanilltud Faerdre rhwng canol y 50au a'r 70au, cafodd rhai aelodau Glwb Ceir Gilbern y fraint o fod y 6 char cyntaf i deithio'r heol o Donteg i fyny hyd at Lantrisant.

YSGOL GYFUN GARTH OLWG

Mwynhau gwersi syrffio



Disgyblion Blwyddyn 8 yn Abaty Tyndyrn.

Disgyblion Safon Uwch gyda'u canlyniadau

Jay Worley ac Amber Jones yn eu gwisgoedd Siapaneaidd

Y gweithdy Punjabi

Disgyblion hapus gyda'u canlyniadau TGAU

Tîm pêl-droed dan 13 Tonyrefail yn Awstria